



Gall newid fod yn anodd i blant ac mae dechrau mewn ysgol newydd, mewn ystafell ddosbarth newydd, gydag athro newydd, yn gallu bod yn her enfawr i lawer.

Mae gweithgareddau pontio yn ffordd wych o gynorthwyo plant yn y dilyniant trwy eu bywyd academaidd. Mae'r gweithgaredd hwn yn annog plant i ddewis a chyflwyno eu nodweddion a phriodoleddau mwyaf perthnasol er mwyn cynorthwyo â phontio.

Gellid cynnal y gweithgaredd hwn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gydag athro cyfarwydd, neu ar ddechrau tymor newydd gydag athro newydd. Os ydych yn ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn, gallech rannu'r pasbortau gyda'u hathro newydd i'w helpu i ddeall mwy am ei ddarpar fyfyrwyr a'u profiadau yn yr ysgol. Gall rhieni hefyd gyflawni'r gweithgaredd hwn gartref gyda'u plant.

Coronafeirws

Yng ngoleuni Covid-19, mae'n bosibl na fydd llawer o blant yn gallu cael y cyfle i gwblhau eu blwyddyn olaf yn yr ysgol yn ôl y bwriad. Efallai na fyddant yn gallu ymweld â'u hysgol ac athrawon newydd fel y byddent fel arfer. Rydym wedi sicrhau bod modd golygu'r adnodd hwn i ganiatáu i blant ei gwblhau'n ddigidol gartref, fel y gellir ei anfon yn electronig at eu hathro neu ysgol newydd.

Dechreuwch drwy ddangos pasbort neu lun o basbort i'r plant. **Beth yw hwn? At beth mae'n cael ei ddefnyddio? Pa wybodaeth sydd ynddo?** Mae'n debyg y bydd gwahaniaethau yn y dosbarth o ran plant sydd wedi teithio neu sydd â phasbort, felly sicrhewch eich bod yn cofio hyn ac yn nodi bod y gweithgaredd hwn yn ymwneud â phontio, nid teithio.

Esboniwch y bydd y plant yn creu eu pasbortau unigryw eu hunain i'w rhannu gyda'u hathrawon newydd. Gallai hyn gynnwys unrhyw wybodaeth mae'r plant yn meddwl y bydd yn ddefnyddiol i'w hathrawon newydd ei chael amdany'n nhw.

Beth ellid ei gynnwys? Cymerwch awgrymiadau oddi wrth y plant. Gyda phlant iau, gallai fod yn ddefnyddiol promptio rhai atebion e.e. hoff bwnc, cryfderau, diddordebau, arddull dysgu.


Gellir addasu'r gweithgaredd i wahanol oedrannau a galluoedd. Gyda phlant iau efallai y byddwch eisiau gweithio mewn grwpiau llai i ddewis penawdau'r wybodaeth cyn iddyn nhw ei gwblhau drostynt eu hunain. Gyda phlant hŷn, gall y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys fod yn gwbl agored.

Fy Mhasbort Pontio

(enghraifft)

Clawr cefn

Clawr blaen



Enw: Malia

Oed: 8

Lliw llygaid: Brown

Lliw gwallt: Brown tywyll

Teulu: Mae gen i ddwy chwaer fawr

Hobiau: Cubs, pêl-droed, reidio beic

Personoliaeth: Dwi'n eithaf swil yn y dosbarth ond yn swnllyd pan dwi gartref neu yn yr iard chwarae.

Y peth gorau amdanaf i: Dwi'n ddirig iawn

Cryfderau: Mathemateg, bod yn ffrind da, pêl-droed.

Hoff bwnc: Celf

Sut dwi'n hoffi dysgu: Mae'n well gen i siarad am bethau gyda ffrind cyn ateb cwestiwn.

Dwi'n falch o: Dwi wedi cael bathodyn nofio aur a dwi wedi dysgu'r holl dablau rhifau hyd at 12 x 12

Y flwyddyn nesaf dwi eisiau: dysgu canu'r gitâr

Fy arwyddair ar gyfer y flwyddyn nesaf: Gelli di ei gwneud!

Tu mewn i'r clawr

Tu mewn i'r clawr cefn

Fy Mhasbort Pontio

Clawr cefn

Clawr blaen

	<h2>Fy Mhasbort</h2> <div style="background-color: white; width: 100px; height: 100px; margin: 20px auto;"></div> <h2>PASSPORT</h2>
--	---

<p>Enw:</p> <p>Oed:</p> <p>Lliw llygaid:</p> <p>Lliw gwallt:</p> <p>Teulu:</p> <p>Hobiau:</p> <p>Personoliaeth:</p> <p>Y peth gorau amdanaf i:</p>	<div style="border: 1px solid black; width: 100px; height: 100px; margin: 0 auto;"></div> <p>Cryfderau:</p> <p>Hoff bwnc:</p> <p>Sut dwi'n hoffi dysgu:</p> <p>Dwi'n falch o:</p> <p>Y flwyddyn nesaf dwi eisiau:</p> <p>Fy arwyddair ar gyfer y flwyddyn nesaf:</p>
--	--




Tu mewn i'r clawr

Tu mewn i'r clawr cefn

Fy Mhasbort Pontio

Clawr cefn

Clawr blaen



Tu mewn i'r clawr

Tu mewn i'r clawr cefn